**31 Mawrth 2026**

**Dros 140 o brosiectau yn cael dros £2 filiwn yn ail rownd ariannu Celfyddydau Ymdrochol**



*Sound and Fury gan Pinny Grylls (Llun: Pinny Grylls)*

Mae dros £2 filiwn wedi'u dyrannu i 142 o brosiectau dan arweiniad artistiaid ledled gwledydd Prydain yn yr ail rownd o gyllid Celfyddydau Ymdrochol – cynllun sy'n cefnogi artistiaid o bob cefndir a phrofiad i weithio gyda thechnolegau ymdrochol.

Gyda thri swm gwahanol ar gael o ran grantiau – £5,000, £20,000 a £50,000 – mae'r cyllid yn cefnogi artistiaid ar wahanol gamau o'u datblygiad creadigol: i archwilio, arbrofi neu estyn sut maen nhw'n gwneud gwaith sy'n defnyddio technoleg er mwyn cynnwys cynulleidfa.

Cafodd Celfyddydau Ymdrochol dros 2700 o geisiadau o bob rhan o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon – hyd yn oed yn fwy na’r nifer a ddaeth i law yn rownd ariannu gyntaf y rhaglen. Mae'r ymateb yn dangos galw cryf a pharhaus gan artistiaid i allu datblygu gwaith dewr, arloesol, sensitif a heriol gan ddefnyddio technolegau ymdrochol fel rhan annatod o'u pecyn creadigol.

Mae'r 142 o artistiaid llwyddiannus yn garfan sydd wir yn cynrychioli pob rhan o wledydd Prydain. Maen nhw’n byw mor bell i’r gogledd ag Ynysoedd Heledd, i Falmouth yn y de, o Ben Llŷn yn y gorllewin i Margate yn y dwyrain, yn ogystal â rhanbarthau’r ffin yn Swydd Derry a Tyrone yng Ngogledd Iwerddon – gan adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth ddaearyddol y doniau ymdrochol sydd i’w gweld ar hyd a lled gwledydd Prydain.

Dyfarnwyd £2,060,000 yn yr ail rownd yma o gyllid grant Celfyddydau Ymdrochol – bron ddwywaith cymaint â’r rownd gyntaf:

- 80 × £5,000 – grantiau Archwilio

- 48 × £20,000 – grantiau Arbrofi
- 14 × £50,000 – grantiau Estyn

Mae'r artistiaid sy'n cael eu hariannu yn gweithio ar draws ystod eang o ffurfiau ar gelf gan gynnwys sain, cerddoriaeth, theatr, dawns, dylunio gemau, celfyddydau gweledol, cerflunwaith, ffotograffiaeth, animeiddio, pensaernïaeth a gwneud ffilmiau. Byddan nhw'n gweithio gydag ystod eang o dechnolegau ymdrochol gan gynnwys realiti rhithwir, estynedig a chymysg, ffilm 360°, sain ofodol, rhyngwynebau haptig a chyffyrddol, deallusrwydd artiffisial, bioadborth ac amgylcheddau ymatebol.

Meddai Verity McIntosh, Cyfarwyddwr y Celfyddydau Ymdrochol ac Athro mewn Diwylliant a Chelfyddydau Ymdrochol ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr Bryste:

> "Rydyn ni wrth ein bodd ein bod yn gallu cefnogi cymaint o artistiaid a phrosiectau eithriadol yng ngwledydd Prydain drwy'r cyhoeddiad ariannu diweddaraf yma. Diolch yn fawr i'r partneriaid a'r arianwyr anhygoel sy'n dal i'w gwneud hi'n bosib i artistiaid ddatblygu eu harfer a chreu gweithiau newydd beiddgar sy'n cael effaith ddiwylliannol bwerus, gan gysylltu creadigrwydd gwledydd Prydain â chynulleidfaoedd ledled y byd."

Wrth wneud sylwadau ar ran arianwyr y rhaglen, sef Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau (AHRC) UKRI, Cyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Alban Greadigol a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, meddai cadeirydd gweithredol Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Christopher Smith:

> "Mae'r garfan gyntaf o artistiaid a gefnogir gan y Celfyddydau Ymdrochol wedi dangos sut gall technoleg ymdrochol hybu twf ac arloesedd yn y sector celfyddydau a diwylliant. Rydyn ni'n falch iawn o allu cefnogi carfan hyd yn oed yn fwy o artistiaid drwy'r rownd ariannu ddiweddaraf yma, ac yn edrych ymlaen yn fawr at ddilyn eu cynnydd wrth i'r gwaith esblygu."

Mae rhagor o fanylion am yr holl brosiectau sydd wedi'u hariannu ar gael ar wefan Celfyddydau Ymdrochol. Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi'u hariannu yn cynnwys:

**Llundain, Lloegr:** Sound and Fury gan Pinny Grylls – wedi ennill grant Estyn (cafodd grant Arbrofi yn 2025).

Mae Sound and Fury yn brofiad theatrig hybrid sy'n ail-ddychmygu Macbeth Shakespeare ym myd rhithwir gêm ar-lein. Wedi'i berfformio ar lwyfan a'r tu mewn i'r gêm ar yr un pryd, mae'n pontio gofodau ffisegol a digidol. Nid dim ond gwylwyr yw'r cynulleidfaoedd ond 'chwaraewyr' – yn ymuno â brwydrau fflachdorf yn y gêm, yn siapio golygfeydd, ac yn teimlo'r effaith drwy oleuadau, sain a hapteg ymatebol. Mae integreiddio Iaith Arwyddion Prydain a chapsiynu creadigol yn sicrhau bod hygyrchedd wedi'i blethu i mewn i seiliau'r perfformiad, gan wneud y profiad hybrid yn un cynhwysol, ymdrochol, ac anrhagweladwy.

Gwneuthurwr ffilmiau clodwiw yw Pinny Grylls, sydd wedi ennill Gwobr Torri Trwodd BAFTA 2025. Mae ei ffilm gyntaf, Grand Theft Hamlet, a gyd-gyfarwyddwyd gyda Sam Crane, wedi ennill Gwobr y Rheithgor am y Ffilm Ddogfen Orau yn SXSW, dwy Wobr BIFA, Gwobr Grierson ac enwebiad ar gyfer rhestr hir BAFTA. Mae wedi'i dosbarthu gan MUBI, ac mae'n croniclo eu cynhyrchiad o "Hamlet" a enillodd Wobr Arloesi ar Lwyfan i mewn yn Grand Theft Auto. Mae Pinny yn aelod balch o'r gymuned fyddar.

**Lerpwl / Llundain, Lloegr:** The Distance Between Beats Is The Only Distance Between Us gan Myra Appannah – wedi ennill grant Arbrofi.

Gêm rythm hynafol a phersonol yw The Distance Between Beats Is The Only Distance Between Us, sydd wedi'i hadeiladu gyda churiadau a grëwyd gyda chymunedau mudol, lle mae chwaraewyr yn datgloi bydoedd o fudo, atgofion a chwedloniaeth drwy ddal patrymau curiad. Drwy rythm, mae stori

sut mae pobl yn cyrraedd ac yn dod o hyd i'w gilydd yng ngwledydd Prydain yn dod yn rhywbeth sy'n cael ei rannu a'i deimlo. Wedi'i greu mewn cydweithrediad ag Asylum Link yn Toxteth gyda chefnogaeth gan Music Futures, Prifysgol John Moores Lerpwl a FACT Lerpwl, bydd sesiynau creadigol gyda chyfranogwyr mudol yn creu curiadau, straeon a chymeriadau chwedlonol fydd yn siapio'r prototeip yn uniongyrchol.

Artist hunanddysgedig yw Myra Appannah, sy'n gyd-gyfarwyddwr BRiGHTBLACK. Mae'n awdur sydd wedi bod ar restr hir BAFTA ac yn Arweinydd Creadigol ar "un o brofiadau ymdrochol mwyaf dylanwadol gwledydd Prydain yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf" (UKRI). Mae ei gwaith yn cwmpasu ac yn cyfuno profiadau ymdrochol ar raddfa fawr, gosodiadau rhyngweithiol, realiti ymestynnol, gemau, ffilm, sain, deallusrwydd artiffisial a pherfformiadau byw.

**Belffast, Gogledd Iwerddon:** Becoming gan Helena Hamilton – wedi ennill grant Estyn (wedi cael grant Arbrofi yn 2025).

Gosodwaith rhyngweithiol am y trawsnewidiad dwys o ddod yn fam yw Becoming. Mae'n tynnu ar ymchwil ansoddol gyda 25 o famau, gan adlewyrchu themâu sy'n codi dro ar ôl tro gan gynnwys unigedd, gorlethu a llawenydd. Disgrifiodd llawer o gyfranogwyr pa mor amhosib ei hesbonio yw'r broses. Mewn ymateb, mae'r gwaith yn cyfuno sain, hapteg, delwedd a rhyngweithio i gyfleu'r hyn na all iaith ar ei phen ei hunan ei wneud.

Artist sy'n gweithio ar y croesffyrdd rhwng celfyddyd weledol, sain a rhyngweithio digidol yw Helena Hamilton. Mae eu harfer yn archwilio'r perthnasoedd deinamig rhwng sain, delwedd a safle, gan bontio'r digidol a'r ffisegol er mwyn creu profiadau sy'n ennyn ystyr yn hytrach na'i orfodi.

**Dundee, yr Alban:** The Game gan Biome Collective (Malath Abbas ac Andy Truscott) – wedi ennill grant Estyn.

Gwaith celf ar ffurf taith gerdded sain ymdrochol yn Dundee gan Biome Collective yw The Game. Gwahoddir cynulleidfaoedd i lawrlwytho ap symudol, gwisgo clustffonau, a cherdded drwy'r ddinas. Mae'r llwybr, y cyflymder, a'r seibiannau yn sbarduno sain haenog, siantiau, sgyrsiau, cerddoriaeth, a recordiadau maes. Mae pob taith yn creu cyfansoddiad gwahanol, wedi'i siapio gan sut mae pobl yn symud drwy le.

Mae'r gwaith yn archwilio pêl-droed fel diwylliant byw, gydag atgof, defod, a hunaniaeth leol yn ganolog yn hytrach na bod yn sioe mewn stadiwm. Mae'n tynnu ar atgofion tad Andy Truscott, un o gefnogwyr gydol oes Dundee United sy'n byw gyda dementia. Mae'n rhoi teithiau bob dydd ac arferion diwrnod gêm ar gadw fel gwaith celf cyhoeddus.

Bydd y prosiect yn ehangu'r prototeip presennol drwy gyd-ddylunio ag Alzheimer Scotland a phartneriaid lleol gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gymunedol Dundee United, Dinas Dylunio UNESCO Dundee, a V&A Dundee. Mae'r cam yma'n dyfnhau hygyrchedd ac awduraeth gymunedol, gan symud tuag at ryddhau'n gyhoeddus a digwyddiad lansio ledled y ddinas sydd wedi'i wreiddio yn nhreftadaeth bêl-droed Dundee.

**Casnewydd, Cymru:** Becoming Monster gan Connor Allen – wedi ennill grant Estyn.

Bydd yr artist amlddisgyblaethol llwyddiannus a'r cyn Children's Laureate Wales, Connor Allen, yn dod â'r syniad o ddod yn anghenfil yn fyw drwy brofiad clustffonau realiti ymestynnol ymdrochol sy'n gwahodd cynulleidfaoedd i gamu i mewn i gyfres o atgofion cydgysylltiedig sydd wedi'u tynnu o'i gerdd Remove the Knot.

Mae Allen yn gwahodd pobl yn llwyr i mewn i'w fyd – byd sydd wedi'i siapio gan amddifadedd, dicter a cholled ond sydd yn y pen draw yn trawsnewid yn obaith ac yn hunan-dderbyn. Drwy dechnoleg

ymdrochol reddfol, nid yw cynulleidfaoedd yn gwylio'r atgofion hyn o bell; maen nhw'n eu profi o'r tu mewn.

Gan gyfuno'r gair llafar ag amgylcheddau 3D ymdrochol, mae'r darn yn gwthio ei waith adrodd straeon i ddimensiwn newydd – gan archwilio terfynau iaith, grym y cof a sut mae straeon yn esblygu pan fydd technoleg yn agor drysau newydd.

**Cryfhau cynrychiolaeth ym maes celfyddydau ymdrochol**

Unwaith eto, mae tîm Celfyddydau Ymdrochol yn falch o weld bod artistiaid o ystod eang o gefndiroedd a phrofiadau bywyd wedi dewis gwneud cais i'r cynllun. Mae dros chwarter y ceisiadau a'r artistiaid llwyddiannus yn y rownd yma yn dod o'r mwyafrif byd-eang, mae dros 55% yn fenywod neu'n arddel hunaniaeth drawsryweddol, anneuaidd, rhywedd cwiar, di-rywedd, neu rywedd arall sydd wedi'i ymyleiddio, ac mae dros 45% yn anabl, yn F/fyddar, yn niwrowahanol neu â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor neu salwch cronig.

Ychwanegodd yr Athro McIntosh:

> "Mae ymchwil yn awgrymu bod pob un o'r cymunedau yma'n dal i fod heb eu cynrychioli'n ddigonol yn sector y celfyddydau ac yn y sector technoleg, ac rydyn ni wrth ein bodd yn gweld cynrychiolaeth mor gryf gan artistiaid anhygoel ar draws y garfan."

Meddai Asha Easton o Fenter Amrywiaeth XR, un o bartneriaid consortiwm Celfyddydau Ymdrochol:

> "Yn fy rôl ddeuol yn cynrychioli Menter Amrywiaeth XR a Rhwydwaith Technoleg Ymdrochol Innovate UK, rwy'n falch iawn o'r ffaith bod rhaglen Celfyddydau Ymdrochol wedi denu ceisiadau gan artistiaid o ystod anhygoel o amrywiol o gefndiroedd a phrofiadau bywyd o bob rhan o wledydd Prydain.
>
> "Rydyn ni'n falch o weld bod amrywiaeth yn dal i gael ei hadlewyrchu yn y garfan yma o brosiectau sydd wedi'u hariannu, gan chwalu pob targed am yr ail dro yn olynol. I fi, mae'r llwyddiant yma'n dod o'r lefel o ofal a manylder mae'r tîm wedi'i roi i wneud y broses o wneud cais a'r ffordd mae'r rhaglen yn cael ei darparu mor gynhwysol â phosib, gan fod yn agored ac yn hyblyg bob amser i adborth y gymuned o artistiaid rydyn ni'n ei gwasanaethu."

Darperir cyllid ar gyfer rhaglen Celfyddydau Ymdrochol drwy gywaith rhwng Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau UKRI (yr AHRC), Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Celfyddydau Lloegr, yr Alban Greadigol a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon. Darperir cyllid o Gyngor Celfyddydau Cymru, yr Alban Greadigol a Chyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon gan y Loteri Genedlaethol.

I gofrestru ar gyfer cylchlythyr Celfyddydau Ymdrochol ac i gael rhagor o fanylion am Celfyddydau Ymdrochol, ewch i immersivearts.uk/cy

**DIWEDD**

I gael rhagor o wybodaeth, lluniau neu gyfweliadau, cysylltwch â Swyddfa'r Wasg ym Mhrifysgol Gorllewin Lloegr Bryste drwy ffonio 0117 3282208 neu e-bostio pressoffice@uwe.ac.uk.

Mae archif datganiadau i'r wasg Prifysgol Gorllewin Lloegr Bryste ar gael yma.

**Nodiadau i olygyddion:**

**Sylwadau ychwanegol ar gael isod.**

ARTISTIAID:

**Meddai Pinny Grylls (Sound and Fury):** “Mae cael cyllid Estyn gan Celfyddydau Ymdrochol yn newid y gêm i Sound and Fury. Mae'r gefnogaeth yma’n caniatáu i ni wthio ffiniau perfformio hybrid, gan gyfuno byd emosiynol Macbeth â natur anrhagweladwy gemau ar-lein. Mae'n rhoi'r gofod hanfodol yna i ni i fod yn feiddgar, cymryd risgiau, a mireinio prawf o gysyniad rydyn ni’n gobeithio y bydd yn ailddiffinio gwaith adrodd straeon cynhwysol ac arloesol ar gyfer cynulleidfaoedd wyneb yn wyneb a chynulleidfaoedd digidol.”

**Meddai Myra Appannah (The Distance Between Beats Is The Only Distance Between Us):** “Mae cael y cyllid yma’n gwneud i fi deimlo’n obeithiol iawn. Mae'n ei gwneud hi'n bosib i ni weithio gydag Asylum Link, sy'n gwneud gwaith hanfodol o dan amgylchiadau anodd gyda chymunedau mudol. Bydd y prosiect yn tynnu ynghyd ein cyd-greadigrwydd ar draws straeon, rhythm, cefnforoedd a phrofiadau wrth chwilio am yr hyn sy'n ein cyffwrdd ni go iawn a'r hyn sy'n wirioneddol bwysig.

“Mae geiriau’n teimlo’n ormod ar hyn o bryd, mae’n fyd swnllyd iawn ac mae’r holl sŵn yna’n ein tynnu ni’n ddarnau. Mae'r prosiect yma’n chwilio am ffordd arall i mewn, un sydd wedi bod yno erioed. Drwy rythm, chwarae a bod gyda'n gilydd, dw i'n credu y gallwn ni ddechrau ymddiried yn ein gilydd unwaith eto.”

**Meddai Helena Hamilton (Becoming):** “Rwy’n llawn cyffro ac yn ei theimlo hi’n anrhydedd fawr cael dyfarniad o ffrwd Estyn Celfyddydau Ymdrochol. Gan adeiladu ar y prototeip a ddatblygwyd drwy’r ffrwd Arbrofi y llynedd, bydd y gefnogaeth yma’n caniatáu i fi a’r tîm barhau i dyfu Becoming yn brofiad sy’n wynebu’r cyhoedd, gan arddangos yng Ngŵyl Gelfyddydau Ryngwladol Belffast 2026.”

**Malath Abbas ac Andy Truscott (The Game gan Biome Collective).** Meddai Malath Abbas: “Rydyn ni’n falch o fod wedi sicrhau cyllid Estyn gan Celfyddydau Ymdrochol ar gyfer The Game. I Biome Collective, mae'r gefnogaeth yma’n cydnabod ein gwaith parhaus i wthio ffiniau celfyddydau ymdrochol a chreu profiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i sgriniau traddodiadol, i gyd-ofodau cyhoeddus. Mae'n ein galluogi i ddatblygu syniadau uchelgeisiol gyda'n partneriaid a chyflwyno gwaith arloesol a hygyrch i gynulleidfaoedd go iawn.”

Ychwanegodd Andy Truscott: “Mae bod yn rhan o raglen Celfyddydau Ymdrochol yn gam enfawr ymlaen i’n prosiect ni. Yn y bôn, mae The Game yn ymwneud â'r defodau sy'n ein diffinio ni. Drwy blethu atgofion personol o ddiwylliant pêl-droed Dundee ynghyd â’r weithred gorfforol o gerdded drwy’r ddinas, rydyn ni’n creu archif fyw. Mae'r gefnogaeth yma’n caniatáu i ni anrhydeddu straeon, fel rhai fy nhad, a thrawsnewid arferion bob dydd gemau yn gyd-brofiad ymdrochol i'r gymuned gyfan.”

**Meddai Connor Allen (Becoming Monster):** “Mae cael dyfarniad gan Celfyddydau Ymdrochol yn anrhydedd enfawr ac yn un rwy’n hynod ddiolchgar amdani. Nid yn unig oherwydd nad yw cyfleoedd fel hyn yn dod i blant fel fi yn aml, ond oherwydd ei fod yn rhoi'r fraint i fi adrodd straeon sy'n taro tant gyda phobl sy'n rhannu profiadau tebyg.

“Fe ddywedodd Plato unwaith ‘Y ffurf uchaf ar wybodaeth yw empathi, oherwydd mae'n gofyn i ni atal yr ego a byw ym myd rhywun arall.’ Dyna'n union beth mae'r dyfarniad yma’n ei gynrychioli i fi … y cyfle i greu empathi. Y cyfle i bobl eraill gael cerdded yn fy esgidiau, hyd yn oed am eiliad a, gobeithio, teimlo ychydig yn llai unig yn y byd prysur yma.

“Mae archwilio technolegau realiti ymestynnol yn rhoi bywyd newydd sbon i’r math yma o waith adrodd straeon a dyna sy’n fy nghyffroi a dweud y gwir. Mae'n agor ffyrdd newydd o rannu'r byd rydw i wedi bod yn ei adeiladu drwy waith adrodd straeon hunangofiannol, gan ganiatáu i bobl nid yn unig glywed y stori ond camu i mewn iddi.”

<u>ARIANWYR:</u>

Meddai **Cyfarwyddwr Datblygu Strategol a Phartneriaethau Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon, Javier Stanziola:** "Mae cyhoeddiad heddiw yn newyddion da ac mae Cyngor Celfyddydau Gogledd Iwerddon wrth ein bodd yn cyd-ariannu Celfyddydau Ymdrochol gyda Chyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'n cydweithwyr ym maes ariannu'r celfyddydau ar draws yr ynysoedd yma. Bydd y buddsoddiad yma'n cefnogi artistiaid i ddysgu sgiliau newydd i greu celf gan ddefnyddio technolegau digidol ac ymdrochol, a bydd yn helpu i ehangu ac amrywio cynulleidfaoedd, fel y gall mwy o bobl o bob cefndir fwynhau profiadau celfyddydol.

"Mae ein buddsoddiad yn y celfyddydau digidol yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu sector sy'n cael mwy o gefnogaeth i ddatblygu drwy arbrofi ac arloesi. Mae'r rhaglen yma gan Celfyddydau Ymdrochol yn annog arferion arloesol sy'n croesi ffiniau ffurfiau ar gelf ac yn meithrin galluoedd digidol yn sector y celfyddydau. Rydyn ni'n teimlo ei bod yn hanfodol bod artistiaid yn cael eu galluogi i gadw i fyny gyda thechnolegau sy'n newid mor gyflym ac anghenion a dymuniadau cynulleidfaoedd wrth iddyn nhw newid. Llongyfarchiadau i bawb a gafodd gyllid."

**Meddai Joanna Wright, arweinydd Arloesi, Digidol a Chelfyddydau Rhyngddisgyblaethol yng Nghyngor Celfyddydau Cymru**: "Mae Celfyddydau Ymdrochol wedi dod â ffocws a chefnogaeth i sbectrwm eang o waith ymdrochol arloesol yng Nghymru. Mae wedi caniatáu ar gyfer pwyntiau mynediad hanfodol, cymryd risgiau ac adeiladu ecosystemau i artistiaid nad oedden nhw efallai wedi ystyried defnyddio offer ymdrochol o'r blaen. Mae'n darparu llwybr ariannu clir sydd wedi'i gynllunio ar gyfer artistiaid, a chefnogaeth gan gynhyrchwyr ymroddedig sy'n dod ag arbenigedd ac arweiniad i artistiaid sydd am ddatblygu eu harfer yn y maes yma. Edrychwn ymlaen i weld cynulleidfaoedd Cymru a'r tu hwnt yn profi'r gwaith yma yn y dyfodol."

Meddai **Tonya Nelson, Cyfarwyddwr Gweithredol, Menter ac Arloesi yng Nghyngor Celfyddydau Lloegr**: "Rydyn ni wrth ein bodd yn cefnogi Celfyddydau Ymdrochol i helpu artistiaid i ddatblygu sgiliau newydd, adeiladu rhwydweithiau, a gwireddu eu huchelgeisiau creadigol drwy dechnolegau digidol. Daw'r dyfarniadau diweddaraf yma wrth i Gyngor Celfyddydau Lloegr gydnabod y Celfyddydau Digidol yn ffurfiol fel disgyblaeth ar draws ein rhaglenni ariannu. Mae ein buddsoddiad yn Celfyddydau Ymdrochol yn atgyfnerthu'r ymrwymiad yma i feithrin arloesedd, sy'n dal i fod yn hanfodol i ddyfodol diwydiannau creadigol gwledydd Prydain."

**Beth yw Celfyddydau Ymdrochol?**

Rhaglen ymchwil a datblygu ledled gwledydd Prydain yw Celfyddydau Ymdrochol, sy'n cefnogi dros 200 o artistiaid a sefydliadau i archwilio potensial creadigol technolegau ymdrochol.

Mae'r consortiwm sy'n cyflawni prosiect y Celfyddydau Ymdrochol yn cael ei arwain gan Brifysgol Gorllewin Lloegr Bryste, gyda'r brif ganolfan yn Pervasive Media Studio ym Mryste, a Watershed yn Gynhyrchydd Gweithredol.

Gan weithio mewn partneriaeth agos â Phrifysgol Bryste a sefydliadau diwylliannol yn Belfast a Derry (Canolfan Nerve), Caerdydd (Canolfan Mileniwm Cymru) a Glasgow (Cryptic), yn ogystal â Crossover Labs, Unlimited, Menter Amrywiaeth XR a Rhwydwaith Technoleg Ymdrochol Innovate UK, mae Celfyddydau Ymdrochol yn cynnwys rhaglen gyfoethog o gyfleoedd cynhwysol a hygyrch, gan chwalu'r rhwystrau i artistiaid o bob cefndir ymgysylltu ag offer ymdrochol.

Mae artistiaid yn cael cyfle i gael mynediad at hyfforddiant, mentora, cyfleusterau arbenigol a chronfeydd hanfodol, gydag o leiaf £3.6 miliwn mewn cyllid grant ar gael rhwng 2024 a 2027 i roi syniadau ar waith ac i ddatblygu prosiectau presennol ymhellach.

Mae testun safonol ar gyfer yr holl arianwyr a phartneriaid ar gael yma.